Cod Ymarfer ar Gyfer Aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Rhagair

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn seiliedig ar y Canllawiau ar y Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi fis Ionawr 1997. Mae'n dilyn ymgynghoriad ag adran noddi'r Cyngor yn y Swyddfa Gymreig.

Mae'r Cod yn ystyried

- yr argymhellion yn Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) (Cm 2850-1);
- ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw (Cm 2931); a'r
- papur ymgynghori a gyhoeddwyd i'w ddilyn gan y Llywodraeth ("Spending Public Money: Governance and Audit Issues", Cm 3179) a'r ymatebion i'r papur hwnnw.

Mae'r datganiad ar atebolrwydd personol yn yr adran ar "Gyfrifoldebau aelodau bwrdd unigol" yn unol â llythyr Annwyl Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys ar 29 Ionawr 1996 (DAO(GEN)3/96).

Ffurfiwyd drafft y Trysorlys yn dilyn trafodaethau ag adrannau eraill y Llywodraeth, ond oherwydd amrywiaeth cyrff cyhoeddus, mae angen ei addasu i amgylchiadau penodol pob corff.

Yn nhermau statudol caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei lywodraethu gan ddarpariaethau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Nid oes gan y Cod ei hun rym y gyfraith ond mae'n seiliedig ar egwyddorion cyfreithiol sy'n ymwneud ag atebolrwydd aelodau cyrff cyhoeddus ac yn deillio o arfer gorau mewn materion cyhoeddus. Mae hi hefyd yn hanfodol bod pob Aelod o'r Cyngor yn dilyn telerau'r Cod ym mhob agwedd ar eu hymglymiad â materion y Cyngor, gan gynnwys eu perthynas gyda chyrff eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos Aelodau y gall eu sefyllfa fod dan fygythiad gan eu perthynas â sefydliadau a ariennir gan y Cyngor.

Yn atodol i'r Cod mae Rheolau o Ymddygiad Personol ar gyfer Aelodau'r CCAUC a luniwyd i gydymffurfio â thestun paragraffau 16 i 24 Canllawiau'r Trysorlys a thestun paragraffau 17 i 25 Cod y Cynghorau. Mae hi yr un mor bwysig i ddilyn y Rheolau Ymddygiad Personol hyn. Eto maent yn dangos arfer priodol mewn materion cyhoeddus. Bydd aelodau'n nodi bod y rheolau hyn yn ymgorffori'r rheolau penodol sy'n gymwys i staff yr Adran Weithredol. Y teimlad yw ei bod yn rhesymol y dylai'r un egwyddor fod ynghlwm wrth dderbyn rhoddion, dyfarniadau, lletygarwch a gwrthdrawiadau buddiannau, beth bynnag yw statws unigolyn fel Aelod y Cyngor neu fel aelod o staff y Cyngor.

Er ei bod yn bosibl bod y Cod Ymarfer yn edrych yn annymunol, yn y bôn mae'n ddatganiad o egwyddorion cyfraith a synnwyr cyffredin ac mae'n bwysig bod pob aelod o'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

Mehefin 1997

Cod Ymarfer ar Gyfer Aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch CYMRU

1 Mae'r ddogfen hon yn gosod Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i paratowyd mewn ymgynghoriad ag Adran Addysg y Swyddfa Gymreig, sy'n noddi'r CCAUC.

Gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus

2 Mae'n rhaid i'r CCAUC ac Aelodau'r Cyngor yn eu cymhwyster corfforaethol bob amser:

- ddilyn y safonau uchaf o ran priodoldeb yn ymwneud ag **amhleidioldeb, unplygrwydd a gwrthrychedd** mewn perthynas â stiwardiaeth cyllid cyhoeddus a rheoli'r Cyngor;
- gwneud y mwyaf o **werth am arian** drwy sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac economaidd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a dilysu perfformiad yn annibynnol lle bynnag y bo'n ymarferol;
- bod yn **atebol** i'r Senedd, defnyddwyr gwasanaethau, dinasyddion unigol a staff ar gyfer gweithgareddau'r cyrff dan sylw, eu stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus ac i ba raddau y bodlonwyd targedau ac amcanion perfformiad allweddol;
- yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar **ddidwylledd**, cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Siarter y Dinasyddion a Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, a cheisio cyfathrebu â sefydliadau a ariennir ynglŷn â pholisïau a phenderfyniadau'r cyngor, gan gynnwys, yn benodol, penderfyniadau sy'n gysylltiedig â dyrannu cyllid, er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn agored.

Perthynas â'r adran noddi

3 Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n atebol i'r Senedd ar gyfer polisïau a pherfformiad pob corff cyhoeddus a noddwyd gan y Swyddfa Gymreig, gan gynnwys eu defnydd o adnoddau a'r fframwaith polisi y maent yn gweithio y tu fewn iddo. Gosodir rolau'r adran noddi, Adran Addysg y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor mewn Datganiad Rheoli a atodir gan Femorandwm Ariannol sy'n nodi telerau'r Cyngor ar gyfer derbyn a gwario cyllid a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Rôl y Cadeirydd

4 Mae gan y Cadeirydd, yn ogystal â'r Prif Weithredwr lle bo'n briodol, gyfrifoldeb penodol am ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol ar faterion megis:

- ffurfio strategaeth y Cyngor ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau strategol;
- annog safonau uchel o ran priodoldeb, a hyrwyddo defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill drwy gydol y sefydliad;
- sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau'n ystyried yn briodol y canllawiau a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r adran noddi;
- trosglwyddo barn y Cyngor i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i sefydliadau a ariennir; a
- darparu asesiad o berfformiad aelodau Cyngor unigol, ar gais, wrth iddynt gael eu hystyried ar gyfer eu hailbenodi i'r Cyngor neu eu penodi i Fwrdd rhyw gorff cyhoeddus arall.

5 Dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn cofnodi'r penderfyniadau a wneir yn gywir.

6 Bydd cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Ysgrifennydd Gwladol fel arfer drwy'r Cadeirydd heblaw am pan fydd y Cyngor wedi cytuno y dylai Aelod unigol weithredu ar ei ran. Er hynny, mae gan Aelod unigol hawl mynediad at Weinidogion ar unrhyw fater y mae ef neu hi'n credu sy'n codi materion pwysig sy'n gysylltiedig â'i ddyletswyddau ef neu â'i dyletswyddau hi fel Aelod o'r Cyngor. Yn yr achosion hyn dylid ceisio cytundeb gweddill y Cyngor. Y prif bwynt cyswllt rhwng y corff a'r adran noddi ar faterion pob dydd fel arfer fydd y Prif Weithredwr neu aelod arall o staff sydd â'r awdurdod i weithredu ar ran y Cyngor.

7 Dylai'r Cadeirydd sicrhau y caiff pob Aelod o'r Cyngor, wrth ymgymryd â swydd, eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad, ac ar eu dyletswyddau, hawliau a chyfrifoldebau. Bydd gan y Cadeirydd ac aelodau eraill y Cyngor gopi o'r Cod Ymarfer hwn yn ogystal â deunydd cefndirol perthnasol arall gan gynnwys y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol ar gyfer y Cyngor; ei Gynllun Corfforaethol ac Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon diweddaraf; memorandwm y Trysorlys, "Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu NDPB"; llawlyfr y Trysorlys, "Rheoleidd-dra a Phriodoldeb"; nodiadau sy'n disgrifio strwythur trefniadol a sail statudol y cyngor; rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor. Dylai'r Cadeirydd annog Aelodau newydd o'r cyngor i fynychu cwrs ymsefydlu ar ddyletswyddau aelodau cyrff cyhoeddus neu ryw ffurf addas arall ar raglen ymsefydlu.

Cyfrifoldebau corfforaethol Aelodau'r Cyngor

8 Mae gan Aelodau'r Cyngor gyfrifoldebau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod y corff cyhoeddus yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol o ran defnydd cyllid cyhoeddus. Mae cyfrifoldebau pwysig eraill Aelodau'r Cyngor yn cynnwys:

- sicrhau y dilynir safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol bob amser;
- sefydlu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad o fewn y fframwaith polisïau ac adnoddau a gytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol;
- goruchwylio cyflawniad canlyniadau a gynlluniwyd drwy fonitro perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau strategol y cytunwyd arnynt;
- sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod statudol; o fewn terfynau awdurdod dirprwyedig y Cyngor ac a gytunwyd gyda'i adran noddi; ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n gysylltiedig â defnydd arian cyhoeddus;
- sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, wedi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr adran noddi;
- ffurfio strategaeth ar gyfer gweithredu'r Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth, gan gynnwys ymateb prydlon i geisiadau'r cyhoedd am wybodaeth; a
- sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu polisïau ac arferion amgylcheddol cadarn yn unol â'r ymarfer a osodwyd ym Mhapur Gwyn 1990 "This Common Inheritance" (Cm 1200) a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynllunio a rheoli strategol

9 Un o brif dasgau'r Cyngor yw goruchwylio cynhyrchu ei Gynllun Corfforaethol. Mae proses paratoi'r ddogfen hon yn rhoi cyfle i gytuno, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, neu gyda swyddogion ar ei ran ef neu ar ei rhan hi, y fframwaith polisïau ac adnoddau y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau y tu fewn iddo; ac i benderfynu ar ei amcanion a thargedau strategol allweddol. Bydd y rhain yn ymwneud â meysydd megis perfformiad y sefydliadau a ariennir wrth gyflawni eu cenadaethau ac amcanion strategol y Cyngor a sicrhau effeithiolrwydd a gwerth am arian; effeithlonrwydd gweithrediadau'r Cyngor ei hun; ac ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Dirprwyo

10 Mae Aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu ar sail ran-amser. I'r graddau a ganiateir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, dirprwyir cyfrifoldeb ar gyfer materion rheoli o ddydd i ddydd i staff cyn belled ag y bo'n ymarferol, o fewn fframwaith o reolaeth strategol a ddeellir yn glir. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod canllawiau clir yn berthnasol i'r materion a ddirprwyir i staff a'r rhai a gedwir ar gyfer eu penderfynu gan y Cyngor. Bydd yr un olaf yn cynnwys materion strategaeth gorfforaethol; amcanion a thargedau strategol allweddol a phenderfyniadau mawr sy'n ymwneud â defnydd adnoddau ariannol ac adnoddau eraill.

11 Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn penderfynu dirprwyo, lle mae'r pŵer ganddo i wneud hynny, gyfrifoldeb am faterion a penodol i Aelodau unigol gan gynnwys y Prif Weithredwr, neu i bwyllgorau'r Cyngor. Dylid cofnodi penderfyniadau a wnaed gan Aelodau unigol neu bwyllgorau'r Cyngor o dan bwerau a ddirprwyir mewn cofnodion ysgrifenedig a gyflwynir i gyfarfodydd llawn y Cyngor.

Cyfrifoldebau Aelodau unigol y Cyngor

12 Dylai Aelodau unigol y Cyngor hefyd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ehangach fel Aelodau'r Cyngor. Fel eraill sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, dylent ddilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan). Ceir yr egwyddorion yn Atodiad 1. Mae'n rhaid i Aelodau'r Cyngor

- addo wrth iddynt gael eu penodi i gydymffurfio bob amser â'r Cod Ymarfer hwn ac â rheolau sy'n gysylltiedig â defnydd arian cyhoeddus;
- gweithredu'n ddidwyll ac er budd y Cyngor;
- peidio â chamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn elwa'n bersonol neu at ddibenion gwleidyddol, na cheisio defnyddio cyfle gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo eu buddion preifat neu rai pobl, cwmnïau, busnesau neu sefydliadau cysylltiedig eraill; a
- sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Cyngor ar dderbyn rhoddion a lletygarwch.

13 Ni ddylai Aelodau'r Cyngor ymddwyn mewn ffordd a fydd yn dwyn anfri ar y Cyngor.

14 Disgwylir i Aelodau'r Cyngor beidio â chymryd swyddi sydd â chyflog mewn pleidiau gwleidyddol neu fod â rolau heb gyflog sy'n hynod o sensitif neu â phroffil uchel mewn plaid wleidyddol. Yn ddarostyngedig i hynny, mae hawl gan Aelodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol, ond iddynt fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyhoeddus cyffredinol ac yn ymddwyn yn briodol o synhwyrol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith y Cyngor y maent yn aelodau ohono. Ar waith sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith hynny, ni ddylent roi areithiau gwleidyddol na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol eraill.

15 Nid yw'r cyfyngiadau ym mharagraff 14 yn gymwys i Aelodau'r Cyngor sy'n ASau, i gynghorwyr lleol nac i Arglwyddi mewn perthynas â'u hymddygiad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ymdrinnir â sefyllfa Arglwyddi yn y cyswllt hwn gan ddatganiad a atgynhyrchir fel Atodiad D i "Non-Departmental Public Bodies: A Guide for Departments".

16 Gellir tynnu Aelod y Cyngor o'i swydd os yw ef neu hi wedi bod yn absennol o gyfarfodydd y Cyngor am gyfnod sy'n hwy na chwe mis yn olynol heb ganiatâd y Cyngor, neu os yw'n analluog neu'n anaddas i gyflawni swyddogaethau Aelod.

Ymdrin â gwrthdrawiadau buddiannau

17 Dylai'r Cadeirydd ac Aelodau eraill y Cyngor ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Aelodau'r Cyngor. Bydd y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'i adran noddi yn llunio a pharhau i adolygu rheolau ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor a fydd yn sicrhau y nodir y fath wrthdrawiadau'n gynnar ac y gellir cymryd camau gweithredu priodol i'w datrys.

18 Mae'r rheolau'n cynnwys cadw cofrestr o fuddiannau sy'n briodol i weithgareddau'r Cyngor. Dylai'r gofrestr, o leiaf, restru buddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y gallai'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallai ddylanwadu ar ddyfarniadau. Dylai'r gofrestr fuddiannau hefyd gynnwys buddiannau anariannol Aelodau sy'n ymwneud yn agos â gweithgareddau'r Cyngor, a buddiannau aelodau agos y teulu a phobl sy'n byw yn yr un cartref ag Aelod y Cyngor[1].

19 Mae cofrestr fuddiannau'r Cyngor ar gael i aelodau'r cyhoedd ar gais. Caiff manylion o sut y gellir cael mynediad ati eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiad Safonau Gwasanaeth. Dylai Aelodau'r Cyngor ddiweddaru'r gofrestr wrth i newidiadau ddigwydd.

20 Yn niffyg darpariaethau statudol penodol, mae'n ofynnol o dan y gyfraith gyffredin:

- bod aelodau cyrff cyhoeddus yn peidio â chymryd rhan mewn trafod neu benderfynu ar faterion y mae ganddynt fudd ariannol uniongyrchol ynddynt; a

- phan nad yw budd yn ariannol, dylai aelodau cyrff cyhoeddus ystyried a fyddai cymryd rhan mewn trafod neu benderfynu ar fater yn awgrymu perygl go iawn o ragfarn. Dylid dehongli hyn yn yr ystyr y gallai aelodau edrych, yn annheg, yn ffafriol, neu'n anffafriol, ar achos plaid yn y mater dan sylw. Wrth ystyried a oes perygl go iawn o ragfarn yn bodoli mewn perthynas â phenderfyniad penodol, dylai aelodau asesu a ydynt, neu a yw aelod agos o'r teulu, rhywun sy'n byw yn yr un cartref â'r aelod, neu gwmni, busnes neu sefydliad arall y mae'r aelod yn gysylltiedig ag ef, yn debygol o gael ei effeithio gan y penderfyniad dan sylw. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniad i wahodd tendrau am gontract lle byddai cwmni yr oedd yr aelod yn gysylltiedig ag ef mewn sefyllfa a oedd yn sylweddol well nag eraill i'w ennill.

Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r paragraff hwn yn atal y Cyngor rhag penderfynu cyhoeddi indemniad yn nhelerau paragraff 27 isod.

21 Lle, yn unol â'r uchod, nad yw Aelodau'n cymryd rhan mewn trafod neu benderfynu ar fater, dylent fel arfer tynnu'n ôl o'r cyfarfod. Mae hyn oherwydd mae'n bosibl y gellid meddwl y byddai presenoldeb parhaus rhywun a oedd wedi datgan budd yn debygol o ddylanwadu ar farn yr Aelodau eraill sy'n bresennol.

---

1 Mae buddiannau ariannol anuniongyrchol yn codi o gysylltiadau â chyrff sydd â budd ariannol uniongyrchol neu o fod yn bartner busnes i, neu gael eich cyflogi gan rywun â'r fath fudd. Mae buddiannau anariannol yn cynnwys y rhai sy'n codi o aelodaeth clybiau a sefydliadau eraill. Mae aelodau agos y teulu'n cynnwys partneriaid personol, rhieni, plant (oedolion a rhai dan oed), brodyr, chwiorydd a phartneriaid personol unrhyw un o'r rhain.

22 Dylai'r Cyngor gael cyngor cyfreithiol ar effaith unrhyw ddarpariaethau statudol penodol sy'n gymwys iddynt. Mewn achosion pan gaiff Aelodau eu hawdurdodi gan y gyfraith i gynrychioli grŵp y mae penderfyniadau'r Cyngor yn debygol o gael effaith arno, mae'n bosibl y bydd y fframwaith statudol yn caniatáu i Aelodau gymryd rhan, er gwaethaf unrhyw fudd ariannol uniongyrchol sydd ganddynt yn y penderfyniad. Fodd bynnag, ni ddylai'r Cyngor anwybyddu'r posibilrwydd y gallai darpariaethau statudol penodol roi cyfyngiadau sy'n llymach na'r rhai a ddisgrifir ym mharagraff 20 ar gyfer buddiannau anariannol.

23 Pa un ai a all Aelodau'r Cyngor gymryd rhan mewn trafod neu benderfynu ar fater yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, dylent ddatgan cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl i gyfarfod ddechrau os oes ganddynt fudd, yn ariannol neu fel arall, mewn mater sy'n cael ei ystyried. Dylent hefyd ddatgelu unrhyw fuddiannau y maent yn ymwybodol ohonynt ar ran aelodau agos y teulu[2] a phobl sy'n byw yn yr un cartref ag Aelod y Cyngor. Yn ogystal, dylai Aelodau'r Cyngor ystyried a oes angen iddynt ddatgelu buddiannau perthnasol pobl neu sefydliadau eraill y gallai aelodau'r cyhoedd feddwl yn rhesymol y gallai ddylanwadu ar farn yr Aelod.

24 Oherwydd ei bod yn ofynnol i'r cyhoedd ddilyn arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, mae'n rhaid i Aelodau'r Cyngor hwyluso cydymffurfiaeth â'r angen o dan Safon Adrodd Ariannol 8 i drafodion materol â phartïon perthynol gael eu datgelu mewn datganiadau ariannol. "Mae partïon perthynol" yn Safon Adrodd Ariannol 8 yn cynnwys aelodau agos o deulu unigolyn, a ddiffinnir at bwrpasau'r safon fel aelodau teulu, neu aelodau'r un cartref, y gellid disgwyl iddynt ddylanwadu ar neu gael eu dylanwadu gan yr unigolyn hwnnw yn eu trafodion gyda'r endid adrodd.

25 Dylai'r Cyngor fabwysiadu dulliau diogelu i atal gwrthdrawiadau buddiannau rhag codi o dderbyn penodiadau allanol yn ystod neu ar ôl cyfnod fel Aelod y Cyngor, gan ystyried y canllawiau ym mhennod 10 "Non-Departmental Public Bodies: A Guide for Departments".

Atebolrwydd Personol Aelodau'r cyngor

26 Er ei bod yn debygol y câi unrhyw achosion cyfreithiol a ddechreuir gan drydydd parti eu dwyn yn erbyn y Cyngor, mewn achosion eithriadol gellir dwyn achosion (rhai sifil, neu mewn rhai achosion, rhai troseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill y Cyngor. Er enghraifft, gall Aelod y Cyngor fod yn atebol yn bersonol os yw ef neu hi'n gwneud gosodiad twyllodrus neu esgeulus sy'n achosi colled i drydydd parti. Gall Aelod y Cyngor sy'n camddefnyddio gwybodaeth a gafwyd yn rhinwedd ei sefyllfa ef neu ei sefyllfa hi fod yn atebol am dorri cyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredinol neu o dan ddeddfwriaeth ar fasnachu mewnol.

27 Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi nodi na fydd rhaid i Aelodau'r cyngor sy'n ymddwyn yn onest, yn rhesymol, yn ddidwyll a heb esgeulustod wynebu allan o'u hadnoddau personol eu hunain unrhyw rwymedigaeth sifil bersonol a achosir wrth ymwneud neu wrth ymwneud yn honedig â'u swyddogaethau ar y Cyngor ac mae'r Cyngor wedi cadarnhau i Aelodau'r Cyngor indemniad priodol yn unol â thelerau'r paragraff hwn.

28 Caiff Aelodau'r Cyngor sydd eisiau cyngor pellach ymgynghori, lle bo'n briodol, â chynghorion cyfreithiol y Cyngor drwy'r Prif Weithredwr.

Didwylledd ac ymatebolrwydd

29 Dylai Aelodau'r Cyngor a'u staff gynnal eu trafodion â'r cyhoedd mewn ffordd ddidwyll ac ymatebol, i sicrhau cydymffurfiaeth lawn ag egwyddorion Siarter y Dinasyddion a'r Cod Ymarfer ar gyfer Mynediad at Wybodaeth y Llywodraeth. Dylent ystyried cyn belled ag sy'n bosibl Safon Arfer Gorau o ran Didwylledd NDPBau Gweithredol a chyrff y GIG yn Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Cm 2850-1). Yn unol â'r cod Ymarfer,

[2] Gweler troednodyn 1 uchod

bydd y Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau'n gyhoeddus, heblaw am achosion pan fyddai hyn yn gwrthdaro â buddiannau eraill, er enghraifft lle gallai difrodi iechyd ariannol neu fuddiannau masnachol sefydliadau.

30 Dylai'r Cyngor sicrhau y gall ddangos ei fod yn defnyddio ei adnoddau er effaith dda, gyda phriodoldeb, a heb sail i feirniadaeth y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio at ddibenion preifat, partisan neu ar gyfer plaid wleidyddol. Dylai ymddwyn yn gyson â natur ei gyfrifoldebau a'r angen posibl am gyfrinachedd ar seiliau masnachol neu rai eraill, yn ddarostyngedig bob amser i hawliau'r Senedd a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i gael gwybodaeth. Dylai fod gweithdrefnau mewnol ar gael i ddelio â chwynion, gan gynnwys y rhai ar fethu â darparu gwybodaeth.

Ymatebolrwydd ar gyfer cyllid cyhoeddus

31 Mae ar Aelodau'r Cyngor ddyletswydd i sicrhau gwarchod cyllid cyhoeddus - sydd ar gyfer y pwrpas hwn yn cynnwys pob math o dderbyniad o ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill, a gwarchod yn briodol asedau a ariannwyd yn gyhoeddus. Mae'n rhaid iddynt gymryd camau priodol i sicrhau bod y Cyngor bob amser yn cynnal ei weithrediadau mor economaidd, effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl, gan ystyried yn llawn y ddarpariaeth statudol lawn a'r canllawiau perthnasol yn Cyfrifyddu'r Llywodraeth.

32 Mae Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau nad yw'r corff yn rhagori ar ei bwerau neu ei swyddogaeth, boed wedi'i diffinio'n statudol neu fel arall, neu drwy unrhyw gyfyngiadau ar ei awdurdod i achosi gwariant. Cânt eu cynghori ar y materion hyn gan y Prif Weithredwr a fydd yn cyfeirio at ei gynghorwyr cyfreithiol pan fydd hyn yn angenrheidiol.

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

33 Fel rhan o'i gyfrifoldebau am stiwardio cyllid cyhoeddus, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnwys datganiad llawn o ddefnydd y fath adnoddau yn ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Dylid paratoi'r fath gyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ac unrhyw ganllawiau eraill a gaiff eu cyhoeddi, o dro i dro gan yr adran noddi a chan y Trysorlys, gan gynnwys "Executive Non-Departmental Public Bodies: Annual Reports and Accounts Guidance".

34 Yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion statudol sy'n bodoli, dylai'r Cyngor anelu at gynhyrchu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol fel dogfen sengl a dylai roi cyhoeddusrwydd priodol iddi. Os cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wahân, dylai fel arfer gynnwys o leiaf crynodeb o'r cyfrifon blynyddol a beth bynnag rhoi manylion ar sut i gael y cyfrifon llawn. Dylid cynnwys datganiad gan yr archwilwyr i gadarnhau ei fod yn gyson â'r cyfrifon blynyddol. Dylai hefyd ddweud a oedd yr adroddiad ar y cyfrifon blynyddol yn amodol a darparu manylion os mai dyna oedd yn wir.

35 Dylai'r Adroddiad Blynyddol ddarparu disgrifiad llawn o weithgareddau'r Cyngor; datgan i ba raddau y bodlonwyd amcanion strategol allweddol a thargedau ariannol a thargedau perfformiad; a darparu manylion ar dalu aelodau'r cyngor ac uwch staff y cytunwyd arnynt; rhestru enwau aelodau cyfredol y Cyngor ac uwch staff eraill yn unol â Chanllawiau'r Trysorlys. Dylai'r Adroddiad Blynyddol gynnwys gwybodaeth ar gofrestrau buddiannau yn unol â pharagraff 19 uchod.

Rôl y Prif Weithredwr

36 Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb, o dan y Cyngor, am drefnu, rheoli a staffio'r Cyngor ac am ei weithdrefnau o ran materion ariannol a rhai eraill, gan gynnwys ymddygiad a disgyblaeth. Mae hyn yn golygu hyrwyddo drwy arweinyddiaeth ac esiampl y gwerthoedd a geir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Pwyllgor Nolan. Dylai aelodau'r cyhoedd gefnogi'r Prif Weithredwr wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn.

37 Dynodir y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Mae e'n atebol i'r Senedd ac i Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa Gymreig am yr adnoddau sydd o dan ei reolaeth. Hanfod y rôl yw cyfrifoldeb personol am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus sydd ar gael i'r Cyngor; am gadw cyfrifon priodol; am weinyddiaeth gall ac economaidd, am osgoi gwastraff ac afradlonedd ac am ddefnydd effeithiol ac effeithlon yr adnoddau sydd o dan ei ofal. Mae ar y Swyddog Gyfrifyddu gyfrifoldeb i sicrhau y rhoddir y cyngor priodol i'r Cyngor ar y materion hyn i gyd. Mae perfformio'r cyfrifoldebau hyn yn foddhaol yn sylfaenol i rôl y Prif Weithredwr.

38 Gosodir canllawiau manylach ar rôl swyddog cyfrifyddu yn "The Responsibilities of a NDPB Accounting Officer", sy'n ymdrin ag ymddangos o flaen Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin. Darperir copi o'r ddogfen hon yn atodol i Ddatganiad Rheoli'r Cyngor. Mae llawlyfr y Trysorlys, "Regularity and Propriety", yn disgrifio beth yw ystyr y cysyniadau hyn mewn cyd-destun ariannol. Er y bwriedir y llawlyfr yn bennaf ar gyfer swyddogion cyfrifyddu, dylai aelodau'r Cyngor hefyd ymgyfarwyddo ag ef.

Pwyllgor Archwilio a Risg

39 Bydd Pwyllgor Archwilio a Risg y Cyngor yn cynnwys Aelodau'r Cyngor yn bennaf a chaiff ei gadeirio fel arfer gan Aelod y Cyngor, ar wahân i'r Cadeirydd, sydd â phrofiad o faterion ariannol. Bydd cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gorgyffwrdd â rhai'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd fel arfer yn mynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg oni bai, fel eithriad, y trafodir ei berfformiad ei hun. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ei Gylch Gorchwyl ei hun, a osodir yn Atodiad 2. Derbynnir Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg gan y Cyngor.

Y Cyngor fel cyflogwr

40 Bydd y Cyngor yn sicrhau:

- bod y CCAUC yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth cyflogi berthnasol a'i fod yn cyflogi staff sydd wedi'i hyfforddi'n addas - er enghraifft, mewn meysydd allweddol megis cyllid - a fydd yn cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r safonau uchel a ddisgwylir gan staff a gyflogir gan y fath gyrff. Dylai'r holl staff fod yn gyfarwydd â phrif nodau ac amcanion y corff;

- bod y Cyngor yn mabwysiadu arferion rheoli sy'n defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf economaidd ac effeithlon;

- bod rheolau'r Cyngor ar gyfer recriwtio a rheoli staff yn darparu ar gyfer penodi a dyrchafu ar sail rhinwedd ac ar sail cyfle cyfartal ar gyfer yr holl ymgeiswyr ac aelodau o staff. Wrth lenwi swyddi uwch staff, bydd y Cadeiryddion a'r Prif Weithredwr yn bodloni eu hunain yr ystyrir maes digonol o ymgeiswyr cymwys, a dylent bob tro ystyried rhinweddau cystadleuaeth lawn agored. Wrth recriwtio ymgeiswyr allanol, dylid defnyddio hwn fel arfer;

- bod gan y staff ac Aelodau'r Cyngor ei hun, fynediad priodol at gyfleoedd cynghori a hyfforddi arbenigol er mwyn eu galluogi i ymarfer eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

41 Mae'r CCAUC wedi mabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer ei staff sy'n defnyddio'r model a gyhoeddwyd gan NDPBau gweithredol gan Swyddfa'r Cabinet (OPS) ym mis Awst 1996, yn ddarostyngedig i rai addasiadau a gytunwyd gan yr adran noddi, i ystyried eu nodweddion a'u hamgylchiadau penodol eu hunain. Mae'r cod model yn ymwneud â threfniadau sy'n galluogi aelodau o staff i godi pryderon ynglŷn â phriodoldeb gyda'r Prif Weithredwr neu gyda Chadeirydd y Cyngor yn y lle cyntaf, ac wedyn, os yw'n angenrheidiol, gyda Phennaeth yr Isadran Bersonél yn yr adran noddi. Mae'n ofynnol i'r staff ddilyn eu dyletswyddau o gyfrinachedd ar ôl iddynt adael cyflogaeth y Cyngor.

42 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb dros fonitro perfformiad y Prif Weithredwr a staff uwch eraill. Lle mae telerau ac amodau cyflogaeth y Prif Weithredwr, ac aelodau uwch eraill o staff, yn cynnwys hawl i gael eu hystyried ar gyfer cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod ganddynt fynediad at y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen i wneud y dyfarniadau angenrheidiol.

Mehefin 1997

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Anhunanoldeb

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn nhermau budd y cyhoedd yn unig.
Ni ddylent wneud hynny er mwyn ennill buddiannau ariannol neu rai materol eraill i'w hunain, eu teuluoedd, na'u ffrindiau.

Unplygrwydd

Ni ddylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus roi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt o ran perfformiad eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

O ran gwneud busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddiannau, dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

Atebolrwydd

Mae pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd ac mae'n rhaid iddynt ymostwng eu hunain i ba bynnag archwilio sy'n briodol i'w swydd.

Didwylledd

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus fod mor ddidwyll â phosibl ynglŷn â'r holl benderfyniadau a'r gweithredoedd a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth ond pan fydd galw am hynny gan y budd cyhoeddus ehangach.

Gonestrwydd

Mae ar bobl sydd mewn swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdrawiadau sy'n codi mewn ffordd sy'n amddiffyn budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai pobl sydd mewn swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.

Ardystiodd y Llywodraeth Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn "Spending Public Money: Governance and Audit Issues", Cm 3179, Mawrth 1996.

Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Risg CCAUC

1 Cyfansoddiad

Pwyllgor y Cyngor i gael ei alw'n Bwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor) a sefydlwyd gyda'r cylch gorchwyl a'r rheolau sefydlog canlynol gan benderfyniad y Cyngor dyddiedig 12fed diwrnod mis Rhagfyr 2008.

2 Cylch Gorchwyl

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cynghori a chefnogi'r Cyngor a Swyddog Cyfrifyddu CCAUC gan roi iddynt sicrwydd annibynnol o ran effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheolaeth risg y Cyngor. Yn benodol, bydd y Cyngor yn rhoi barn ffurfiol i'r Cyngor ar y cyfrifon a archwiliwyd, gan gynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Yn gyson â chyfrifoldebau CCAUC yn y sector addysg uwch, mae'r cylch gorchwyl hwn yn ymestyn i sicrwydd i'r Cyngor am reolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheolaeth risg gan sefydliadau a chyrff perthynol sy'n derbyn arian gan CCAUC ('sefydliadau a ariennir').

Bydd y Pwyllgor yn ystyried digonolrwydd llywodraethu corfforaethol, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol o fewn CCAUC a'r sefydliadau a ariennir drwy'r canlynol:

2.1.1 **Rheolaeth fewnol, rheolaeth risg a llywodraethu corfforaethol**

a) Adolygu digonolrwydd y strwythurau, prosesau a'r cyfrifoldebau a fabwysiedir gan reolaeth CCAUC ar gyfer nodi a rheoli risgiau allweddol a wynebir gan CCAUC. Bydd hyn yn cynnwys adolygiadau rheolaidd o gofrestr risg corfforaethol CCAUC;

b) Adolygu digonolrwydd pob datganiad sy'n gysylltiedig â risg a rheoli, gan gynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad Archwilio Mewnol, cyn eu hardystio gan y Cyngor;

c) Monitro effeithiolrwydd rheolaethau a sefydlwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i sicrhau y gwarchodir arian cyhoeddus ac y cyflawnir eu nodau, amcanion a thargedau perfformiad allweddol yn y ffordd fwyaf economaidd ac effeithiol;

d) Adolygu canlyniadau asesiad iechyd ariannol sefydliadol ac adolygiad risg, a darparu cyngor i'r Cyngor ar gamau gweithredu;

e) Adolygu digonolrwydd polisïau ar gyfer sicrhau y ceir cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol perthnasol a chod ymarfer a chod ymddygiad y Cyngor ar gyfer aelodau a chyflogeion yn ôl eu trefn;

f) Rhoi cyngor i'r Cyngor, cyn belled ag y mae'n rhesymol bosibl, ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i warchod asedau CCAUC ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra;

g) Monitro sut mae CCAUC yn trin cwynion a datgeliadau er budd y cyhoedd ('chwythu'r chwiban') a wneir yn erbyn sefydliadau a ariennir;

h) Ystyried canlyniadau unrhyw adolygiadau annibynnol o'r gwasanaethau Archwilio Mewnol a Sicrwydd Sefydliadol.

2.1.2 Archwiliad mewnol

a) Cynghori'r Cyngor ar benodi a thelerau cyflogi archwilwyr mewnol, y ffi archwilio, darparu gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio ac unrhyw gwestiwn o ymddiswyddo neu ddiswyddo archwilwyr mewnol;

b) Ystyried a chynghori'r Cyngor ar y rhaglen archwilio mewnol flynyddol a thymor hir a'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni anghenion archwilio diffiniedig y Cyngor;

c) Ceisio sicrhau bod digon o adnoddau gan y swyddogaeth archwilio mewnol a bod ganddi statws digonol o fewn y sefydliad;

d) Ystyried y datganiad sicrwydd blynyddol ar archwilio mewnol a phob adroddiad, gan gynnwys adroddiadau gwerth am arian ac i fonitro gweithredu argymhellion yr archwiliad mewnol yn effeithiol;

e) Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth archwilio mewnol yn flynyddol.

2.1.3 Archwiliad allanol

a) Trafod â'r archwilwyr allanol, cyn i'r archwiliad ddechrau, natur a chwmpas yr archwiliad a cheisio sicrhau cydlyniad rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol;

b) Cynghori'r Cyngor ar dalu'r archwilwyr allanol a chwmpas eu gwaith gan gynnwys unrhyw waith nad yw'n waith archwilio;

c) Ystyried pob adroddiad perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyrff perthnasol eraill, gan gynnwys adroddiadau ar y cyfrifon , cael gwerth am arian a'r ymateb i unrhyw lythyron rheoli, a monitro gweithrediad effeithiol argymhellion sy'n codi;

d) Monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol yn flynyddol.

2.1.4 Adrodd ariannol

a) Adolygu cyfriflenni ariannol blynyddol CCAUC cyn eu cyflwyno i'r Cyngor, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- Newidiadau i bolisïau ac arferion cyfrifyddu a chydymffurfio â nhw;
- Meysydd dyfarniadol pwysig;
- Addasiadau sylweddol sy'n codi o'r archwiliad; a
- Phenderfynu a ydynt yn gyflawn ac yn gyson â'r wybodaeth sy'n hysbys i aelodau'r Cyngor.

2.2 Cyfrifoldebau

Ar sail yr ystyriaethau uchod o ran ymgymryd â'i ddyletswyddau, bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor a Swyddog Cyfrifyddu CCAUC ar y materion canlynol:

a) Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg yn CCAUC a'r sector Addysg Uwch;

b) Cwmpas ac effeithiolrwydd gwasanaethau Archwilio Mewnol a Sicrwydd Sefydliadol CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cynllunio archwiliadau, gweithrediadau, cydweithredu ag archwilwyr allanol, gwaith dilynol ac adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Sicrwydd;

c) Cwmpas ac effeithiolrwydd gwasanaeth Archwilio Mewnol CCAUC. Mae hyn yn cynnwys cynllunio archwiliadau, gweithrediadau a gwaith dilynol, ac adroddiad blynyddol yr archwiliad mewnol;

d) Y meini prawf ar gyfer dethol a phenodi gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor, gan gynnwys asesu digonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gwaith sydd ei angen;

e) Unrhyw adroddiadau perthnasol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan gynnwys unrhyw ymateb gan reolwyr;

f) Y trefniadau sydd wedi'u sefydlu i hyrwyddo darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o fewn y Cyngor a'r sector Addysg Uwch;

g) Safonau cyfrifyddu ac archwilio newydd;

h) Arfer da sy'n dod i'r amlwg o ran rheolaeth fewnol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg;

i) Cynlluniau gwaith sicrwydd sefydliadol ac archwilio mewnol.

2.3 Arall

Bydd y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi cyngor i'r Cyngor ar y materion ynglŷn ag arian, llywodraethu, risg neu reoli y bydd y Cyngor yn gofyn amdanynt o dro i dro. Mae hyn yn cynnwys materion a gyfeirir at y Pwyllgor gan banel cwynion y Cyngor.

3 RHEOLAU SEFYDLOG

3.1 Dilynir Rheolau Sefydlog safonol Pwyllgorau CCAUC.

3.2 Aelodaeth a Phresenoldeb

3.2.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys hyd at chwe aelod. Dewisir tri aelod o blith aelodau'r Cyngor, a bydd un ohonynt yn Cadeirio'r Pwyllgor; bydd hyd at dri aelod yn bobl a gyfetholir nad ydynt yn aelodau'r Cyngor;

3.2.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yw dau aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

3.2.3 Bydd y swyddogion CCAUC canlynol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel arfer:

- Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo;
- Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol;
- Pennaeth Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Gwybodaeth;
- Pennaeth Archwilio Mewnol;
- Pennaeth Adnoddau;
- Uwch Reolwr Sicrwydd Sefydliadol;
- Staff eraill CCAUC, yn ôl dewis y Pwyllgor.

3.2.4 Gwahoddir cynrychiolydd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd cynrychiolydd ar ran yr archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru, yn mynychu'r cyfarfodydd fel arfer, yn enwedig y cyfarfodydd hynny lle ystyrir adroddiad archwilio allanol;

3.2.5 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu i bawb o'r rhai sydd fel arfer yn mynychu cyfarfodydd ond heb fod yn aelodau i adael er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol;

3.2.6 Bydd aelod o'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn gwasanaethu'r Pwyllgor;

3.2.7 Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd ar ran yr archwilwyr allanol fynediad rhydd a chyfrinachol i Gadeirydd y Pwyllgor.

3.3 Cyfarfodydd

3.3.1 O leiaf unwaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor yn cwrdd â Phennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd ar ran yr archwilydd allanol heb fod unrhyw swyddogion eraill y Cyngor yn bresennol.

3.3.2 Gall yr archwilydd allanol neu'r Pennaeth Archwilio Mewnol ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfod os credant fod angen un.

3.4 Awdurdod

3.4.1 Mae'r Pwyllgor yn gorff cynghori heb unrhyw bwerau gweithredol. Er hynny, fe'i hawdurdodir gan y Cyngor i ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei amodau gorchwyl a, thrwy'r Cadeirydd, chwilio am unrhyw wybodaeth neu bapurau sydd eu hangen arno gan staff CCAUC, y mae'n ofynnol iddynt gydweithio â'r Pwyllgor wrth iddo gynnal ei ymholiadau, a chan ei archwilwyr (mewnol ac allanol)

Rhagfyr 2008

Rheolau Ymddygiad Personol ar Gyfer Aelodau Cyngor CCAUC

1 Dylai holl aelodau'r Cyngor ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon a hefyd y Cod Ymarfer ar gyfer Aelodau'r Cyngor.

2 Dylai aelodau'r Cyngor roi sylw arbennig i egwyddorion priodoldeb, amhleidioldeb, uniondeb a gwrthrychedd ym mhob agwedd ar eu hymglymiad ym materion y Cyngor.

3 Dylai aelodau'r Cyngor gydymffurfio ag egwyddorion priodol yn eu hymddygiad wrth ymdrin â materion cyhoeddus. Dylai aelodau sy'n cyfrannu i'r Cyngor fod â hawl i deimlo eu bod yn cyfrannu'n onest, agored a diduedd ac ni ddylai fod angen iddynt ystyried p'un ai fydd eu sylwadau'n cael eu dyfynnu y tu allan a'u hadnabod o'r herwydd. Felly mae'n rhaid i bob aelod gydnabod bod cynnwys trafodaethau'r Cyngor a'r barnau a fynegir gan aelodau unigol yn gyfrinachol.

4 Mae'r Cyngor yn cynnal ei waith yn agored a hysbysir penderfyniadau'r Cyngor trwy daflenni newyddion, cylchlythyron, a bwletinau. Mae gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfrifoldeb arbennig dros sicrhau cyfathrebu â sefydliadau a'r cyhoedd, er yn aml dirprwyir hyn i aelodau staff uwch o ran cyfathrebu â sefydliadau ac weithiau o ran cyfathrebu â'r cyhoedd. Dylai aelodau unigol y Cyngor, yn ogystal â dilyn rheolau cyfrinachedd o ran trafodaethau, osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle maen nhw'n ymddangos fel petasen nhw'n gweithredu fel llefarydd ar ran y Cyngor, heb gymeradwyaeth o flaen llaw gan y Cadeirydd.

5 Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cyngor yn osgoi, cyn belled â bod hynny'n rhesymol bosibl, sefyllfaoedd lle mae gwrthdaro buddiannau. Mewn sefyllfaoedd lle y gall gwrthdaro buddiannau posibl ddigwydd, dylai aelodau'r Cyngor hysbysu'r Prif Weithredwr ac yn achos y gwrthdaro buddiannau'n cyffwrdd â materion sy'n ymwneud â busnes y Cyngor, dylent roi gwybod i'r Cadeirydd. Cyfrifoldeb aelodau'r Cyngor yw hysbysu'r Prif Weithredwr neu'r Cadeirydd yn ôl yr achos.

6 Yn achos y Cyngor yn trafod mater sy'n ymwneud â sefydliad, mudiad neu unrhyw fater arall ble gall aelod o'r Cyngor fod â budd, dylai'r aelod hwnnw ddatgan hyn i'r Cadeirydd a dylai adael y Cyngor tra pery'r drafodaeth heblaw bod y Cadeirydd yn teimlo, o ystyried yr holl amgylchiadau, bod y gwrthdaro buddiannau mor isafol ar y pryd fel y gellir ei anwybyddu. Wrth benderfynu hyn, bydd yn rhaid i'r Cadeirydd ystyried yr angen i sicrhau y gellid egluro presenoldeb parhaus yr aelod o'r Cyngor yn ystod y drafodaeth yn hawdd ac yn rhesymol i foddhad aelodau'r cyhoedd.

7 Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am gynnal cofrestr buddiannau aelodau'r Cyngor. Sefydlir y gofrestr buddiannau a'i diweddaru'n flynyddol trwy ddefnyddio ffurflen a ddosberthir i'r holl aelodau. Cyfrifoldeb pob aelod o'r Cyngor fydd sicrhau bod y Prif Weithredwr yn cael ei hysbysu ynglŷn ag unrhyw fudd ychwanegol a ddaw i'w rhan yn ystod y flwyddyn a allai olygu gwrthdaro pellach.

8 Os bydd aelod yn methu â datgan budd neu'n methu â chwblhau'r gofrestr buddiannau'n gywir, bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am drafod â'r adran noddi yn y Swyddfa Gymreig a ddylai'r aelod hwnnw o'r Cyngor barhau yn ei swydd.

9 Dylai aelodau'r Cyngor gydymffurfio â'r un rheolau â staff CCAUC o ran derbyn anrhegion a hawlio treuliau. Darperir copïau o'r rheolau hyn i aelodau'r Cyngor.

6.23 Derbyn Anrhegion, Gwobrau a Lletygarwch

Mae'n drosedd ddisgyblaethol i staff yn rhinwedd eu swydd dderbyn unrhyw fudd iddyn nhw'u hunain neu aelod o'u teulu fel cymhelliad neu wobr am:

a) wneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw beth; neu

b) ddangos ffafr neu anffafr tuag at unrhyw unigolyn neu sefydliad.

Hyd yn oed pan nad yw'n llwgr, gall derbyn buddion fod yn achos tor-disgyblaeth. Ni ddylai staff, neu aelod o'u teulu, dderbyn rhoddion, lletygarwch neu fuddion o unrhyw fath gan drydydd parti e.e. cyflenwr, sefydliad neu unigolyn, oherwydd y gall hynny ymddangos fel petai'n cyfaddawdu barn neu uniondeb yr aelod staff.

Dylid gwrthod unrhyw gymhelliad, boed yn anrheg, lletygarwch neu arall, a all arwain at sefyllfa gytundebol rhwng y Cynghorau a chyflenwr neu ymgynghorydd.

1. Anrhegion

Yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir isod, dylid gwrthod anrhegion, a dylid cynnig eglurhad ynglŷn â'r rheswm dros wrthod.

Gellir derbyn anrhegion o werth enwol, e.e. dyddiaduron, pennau ysgrifennu, a chalendrau a anfonwyd yn ddigymell drwy'r post, neu a gynhwyswyd mewn pecynnau hyrwyddo, ond dylid eu cofrestru mewn Cofrestr Anrhegion a gedwir yn yr adran Gwasanaethau Swyddfa.

Gellir derbyn anrhegion sy'n werth mwy na £10 o dan amgylchiadau eithriadol yn unig, e.e. lle gall fod yn gywilyddus i'r unigolyn, sefydliad, neu'r Cyngor wrthod yr anrheg. Gall y fath anrhegion gynnwys tusw o flodau, neu eitem wedi'i phersonoli a gynhyrchwyd gan fyfyriwr mewn sefydliad. Dylid cyfeirio pob anrheg sy'n werth dros £10 at y Cyfarwyddwr Cyllid a'u cofrestru yn y Gofrestr Anrhegion. Mewn achosion priodol gall y Cyfarwyddwr Cyllid awdurdodi y gall yr aelod staff gadw'r anrheg; neu gellid defnyddio'r anrheg at ddibenion y Cyngor, neu ei rhoi i elusen.

Dylid cyfeirio anrhegion nad ydynt yn cyfateb i'r meini prawf uchod at y Prif Weithredwr.

2. Gwobrau

Dylai staff ymgynghori â'r Prif Weithredwr os bydd sefydliad allanol yn cysylltu â nhw gan gynnig gwobr sy'n ymwneud mewn unrhyw ffordd â'u dyletswyddau swyddogol.

3. Lletygarwch

Gall aelodau staff dderbyn lletygarwch confensiynol a gynigir iddynt yn eu gwaith. Gall y fath letygarwch gynnwys cinio gwaith, mynychu digwyddiad hyrwyddo yn rhinwedd eu swydd, neu wahoddiad i ddigwyddiad diwylliannol neu gymdeithasol.

Yn gyffredinol, dylid gwrthod cynigion o letygarwch y tu hwnt i'r norm hwn. Gall y fath letygarwch gynnwys cynigion sylweddol o ddigwyddiadau cymdeithasol, teithio neu lety, neu dderbyn prydau bwyd, tocynnau a gwahoddiadau i ddigwyddiadau chwaraeon, diwylliannol neu gymdeithasol yn aml, y arbennig o'r un ffynhonnell.

Os bydd gan aelod staff unrhyw amheuaeth ynglŷn â derbyn lletygarwch a gynigiwyd ai peidio, dylai ymgynghori â'r Prif Weithredwr. Os bydd y Prif Weithredwr yn cytuno ynglŷn â

mynd y tu hwnt i’r lefel arferol o letygarwch, dylid cofnodi hyn yn y Gofrestr Anrhegion.

4. Ffioedd

Dylid cyfeirio pob cynnig o ffioedd enwol e.e. am draddodi araith neu gyflwyno papur, at y Prif Weithredwr. Dylid talu unrhyw ffioedd o ffynhonnell allanol a dderbyniwyd gan aelod staff i Gyngor Cyllido Cymru os gwnaethpwyd gwaith paratoi neu os traddodwyd araith, darlith a.y.b. yn ystod amser gwaith fel rhan o'u dyletswyddau. Fodd bynnag, os cafodd y cyfan neu rywfaint o'r gwaith ei wneud yn amser yr aelod staff, gellir caniatáu i'r aelod staff gadw'r holl ffi neu ran ohono, fel sy'n briodol. Dylid nodi pob ffi a dderbyniwyd yn y Gofrestr Anrhegion. (Dylai staff nodi bod taliadau am wasanaethau'n drethadwy ac mae'n rhaid eu datgan.)

Dylid gwrthod eitemau a gynigir yn lle ffioedd am areithiau, darlithoedd neu waith arall.

6.24 Gwrthdaro buddiannau

Mae'n drosedd ddisgyblaethol i staff ddefnyddio'u safle i hyrwyddo'u buddiannau preifat eu hun neu eraill. Gall gwrthdaro buddiannau godi o fuddiannau ariannol ac yn ehangach o ddelio'n swyddogol ag unigolion sy'n rhannu diddordebau preifat aelod staff neu wneud penderfyniadau'n ymwneud â nhw (e.e. bod yn aelod o gymdeithas neu sefydliad arall, a theulu).

Dylid datgan i'r Prif Weithredwr unrhyw fuddiannau preifat a all wrthdaro ag unrhyw fater sy'n berthnasol i ddyletswyddau aelod staff. Mae'n ofynnol i staff newydd lenwi ffurflen Datgan Buddiannau wrth gael eu penodi. Dylai staff sydd eisoes mewn swydd lenwi ffurflen newydd (sydd ar gael gan yr adran Bersonél) i gofnodi unrhyw fuddiannau newydd neu newid mewn buddiannau a ddatganwyd eisoes. Os oes gan aelod staff unrhyw amheuaeth ynglŷn â phriodoldeb unrhyw weithgaredd personol preifat, dylai ymgynghori â'r Prif Weithredwr.

Dylai staff sicrhau nad ydynt yn cyfaddawdu eu safle trwy ymwneud yn breifat â chwmnïau neu gyrff sydd mewn perthynas gyllido neu gytundebol â'r Cyngor.

Dylai staff gael caniatâd gan y Prif Weithredwr cyn derbyn unrhyw waith cyflogedig allanol a all effeithio ar eu gwaith yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Dylai staff sy'n mynd yn fethdalwr ddatgan y ffaith i'r Prif Weithredwr. Dylai staff roi gwybod i'r Prif Weithredwr os ydyn nhw'n cael eu harestio neu y gwrthodir mechnïaeth iddynt, neu os ydynt yn cael eu dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd. Nid yw hyn yn berthnasol yn achos trosedd yn ymwneud â thrafnidiaeth os nad oedd y gosb yn cynnwys carchariad neu waharddiad rhag gyrru.

Cyhoeddiadau y soniwyd amdanynt

Committee on Standards in Public Life (the Nolan Committee), First Report, Cm 2850-I, 1995, ar gael o'r Llyfrfa, 0171-863 9090, pris £11.80 (ISBN 0 10 128502 7)

Executive Non-Departmental Public Bodies: Annual Reports and Accounts Guidance, Mawrth 1996, ar gael o'r Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys ei Mawrhydi, 0171-270 4502.

Government Accounting*, fersiwn wedi'i chydgrynhoi Ebrill 1995 a diwygiadau dilynol, ar gael o'r Llyfrfa, 0171-863 9090 (ISBN 0 11 560063 9).

Government Internal Audit Manual, Mai 1996, ar gael o'r Llyfrfa, 0171 863 9090, pris £29.95 (ISBN 0 11 702050 8).

Model Code for Staff of Executive Non-Departmental Public Bodies, Awst 1996, ar gael o Grŵp Peirianwaith y Llywodraeth a Safonau, Swyddfa'r Cabinet (OPS), 0170-270 0381.

Non-Departmental Public Bodies: A Guide for Departments, Mawrth 1992 a diwygiadau dilynol, ar gael o Grŵp Peirianwaith y Llywodraeth a Safonau, Swyddfa'r Cabinet (OPS), 0170-270 0381.

Regularity and Propriety: A Handbook*, drafft amlygiad Tachwedd 1996, ar gael o'r Tîm TOA, Trysorlys ei Mawrhydi, 0171-270 5524.

Spending Public Money: Governance and Audit Issues, Cm 3179, Mawrth 1996, ar gael o'r Llyfrfa, 0171-863 9090, pris £8.65 (ISBN 0 10 131792 1).

The Government's Response to the First Report of the Committee on Standards in Public Life, Cm 2931, Gorffennaf 1995, ar gael o'r Llyfrfa, 0171-863 9090, pris £7.10 (ISBN 0 10 129312 7).

The Responsibilities of a NDPB Accounting Officer*, Rhagfyr 1994, ar gael o'r Tîm TOA, Trysorlys ei Mawrhydi, 0171-270 5524.

This Common Inheritance. Britain's Environmental Strategy, Cm 1200, Medi 1990, ar gael o'r Llyfrfa, 0171-863 9090, pris £30.00 (ISBN 0 10 112002 8).